

Minutes of the **Council Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 9<sup>th</sup> November 2015** at 6.30 p.m.

**PRESENT:-** Her Worship The Mayor Councillor Mrs E Butler  
The Deputy Mayor, Councillor D Williams  
Councillors Mrs L Day D Llewelyn J M Martin  
Mrs J Forsyth Mrs J Marshall G O Roberts  
J Wynn Jones R K Marshall M Shultan

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

### **116/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors D Hainge, D Madge, N Pickavance and E H Williams .

### **117/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

### **118/15 ANNOUNCEMENTS**

Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler expressed her gratitude to Councillor JohnWynn Jones for undertaking the duties of Mace Bearer during the Remembrance Sunday Parade and Service, she also thanked those Councillors who turned up and took part in the day despite of the inclement weather.

The Mayor informed Members that the Clerk was preparing to place a story in the local paper regarding Mr Abdul Aziz Barazzi the retiring Mace Bearer, this was intended to express an appreciation of the work that Mr Barazzi had undertaken during his period within the role and it was also hoped that it might prompt expressions of interest for potential applicants or joint applicants for the post.

The Mayor informed Members that she had recently attended a meeting in Penmaenmawr which was also attended by other Mayors locally to discuss the recent congestion and road works on the A55 with the additional knock on effect to local roads and commuters taking short cuts etc. causing local difficulty. She reported that they would be meeting again in the near future to discuss any progress.

### **119/15 MINUTES OF COUNCIL –**

a) Council Meeting 21<sup>st</sup> September 2015

**RESOLVED:** that the Minutes of the above Meeting be received and confirmed as a correct record and signed by the Mayor.

### **120/15 MINUTES OF COMMITTEES**

a) Planning and Amenities Committee – 21<sup>st</sup> September 2015

**RESOLVED:** that the Minutes of this Meeting be received and approved as a correct record and signed by the Chairman.

b) Finance and General Purposes Committee – 28<sup>th</sup> September 2015

**RESOLVED:** that the Minutes of this Meeting be received and approved as a correct record and signed by the Chairman, subject to change of date to October on page 29 Item 106/15 – The Gwynedd Challenge.

c) Planning and Amenities Committee – 19<sup>th</sup> October 2015

**RESOLVED:** that the Minutes of this Meeting be confirmed as a correct record and signed by the Chairman.

**121/15 TO APPOINT REPRESENTATIVES ON OUTSIDE BODIES**

**RESOLVED** that the following representatives be appointed to serve on outside bodies as follows :-

- a) School Governor, - Our Lady's School – Councillors Mrs E Butler
- b) UWB Sports & Recreation Sub-group - Leave vacant until contacted by the Organisation.
- c) UWB Community Liaison Group - Town Clerk/Project Officer or Councillor K Marshall
- d) People of Bangor Community Group – Town Clerk/Project Officer or Councillor K Marshall

**122/15 SIGNING OF DOCUMENTS**

**RESOLVED** that authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

---

The Meeting finished at 7.15 p.m.

---

**MAYOR**

Cofnodion **Cyfarfod y Cyngor** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun, 9<sup>fed</sup> o Dachwedd 2015** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL :-**

Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler		
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Dewi Williams		
Y Cynghorwyr Mrs L Day	D Llewelyn	J M Martin
	Mrs J Forsyth	Mrs J Marshall
	J Wynn Jones	R K Marshall
		G O Roberts
		M Shultan

Swyddog: - Mr Ian Jones, Clerc y Dref

### 116/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D Hainge, D Madge, N Pickavance a E H Williams.

### 117/15 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 118/15 CYHOEDDIADAU

Mynegodd Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler, ei diolchgarwch i'r Cynghorydd John Wynn Jones am ymgymryd â dyletswyddau'r brysgyllwr yn ystod Gorymdaith a Gwasanaeth Sul y Cofio. Diolchodd hefyd i'r Cynghorwyr a ddaeth i gymryd rhan yn y Cofio er gwaetha'r tywydd garw.

Dyweddodd y Maer wrth yr Aelodau fod y Clerc yn paratoi i roi adroddiad yn y papur lleol am Mr Abdul Aziz Barazzi, y brysgyllwr sy'n ymddeol, a hyn i ddangos gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan Mr Barazzi yn ei gyfnod yn y swydd. Roedd yn gobeithio hefyd y byddai hyn yn sbarduno pobl i ddangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd neu ymgeisio i rannu'r swydd.

Dyweddodd y Maer wrth yr Aelodau iddi fynychu cyfarfod ym Mhenmaenmawr yn ddiweddar ynghyd â Meiri lleol eraill i drafod y tagfeydd a'r gwaith ffordd diweddar ar yr A55. Roedd hyn yn cael effaith ddilynol hefyd ar ffyrdd llai gyda theithwyr yn ceisio ffyrdd eraill a hyn yn achosi trafferthion lleol. Adroddodd y byddent yn cwrdd eto yn y dyfodol agos i drafod unrhyw gynnydd.

### 119/15 COFNODION Y CYNGOR

- a) Cyfarfod y Cyngor - 21<sup>ain</sup> o Fedi 2015

**PENDERFYNWYD :** derbyn a chadarnhau fel rhai cywir Cofnodion Cyfarfod y Cyngor uchod a'u harwyddo gan y Maer,

### 120/15 COFNODION PWYLLGORAU

- a) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau – 21<sup>ain</sup> o Fedi 2015

**PENDERFYNWYD :** cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd

- b) Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol – 28<sup>ain</sup> o Fedi, 2015

**PENDERFYNWYD :** derbyn Cofnodion y Cyfarfod yma a'u cadarnhau fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd, ar yr amod bod y dyddiad yn newid i Hydref ar Tud 29 Eitem 106/15 – Her Gwynedd.

- c) Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau - 19eg o Hydref, 2015

**PENDERFYNWYD :** cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod uchod fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd

**121/15 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

**PENDERFYNWYD** penodi'r cynrychiolwyr canlynol i wasanaethu ar gyrff allanol fel a ganlyn :-

- a) Llywodraethwr Ysgol Ein Harglwyddes – Y Cynghorydd Mrs E Butler
- b) Is-grŵp Chwaraeon a Hamdden Prifysgol Bangor - Gadael yn wag nes bod y Grŵp yn dod i gysylltiad.
- c) Grŵp Cyswllt a'r Gymuned Prifysgol Bangor - Clerc y Dref/Swyddog Prosiect neu'r Cynghorydd K Marshall
- d) Grŵp Cymunedol Pobl Bangor - Clerc y Dref/Swyddog Prosiect neu'r Cynghorydd K Marshall

**122/15 LLOFNODI DOGFENNAU**

**PENDERFYNWYD** : rhoi hawl i lofnodi ar ran Cyngor y Ddinas y dogfennau perthnasol i benderfyniadau'r Cyngor a wnaed yn y cyfarfod hwn.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.15 y.h.

---

**MAER**